# ADRODDIAD I'R IS-BWYLLGOR TRAFNIDIAETH STRATEGOL

15 Rhagfyr 2025

| | |
|---|---|
| TEITL: | Adolygiad hunanasesu blynyddol yr Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol |
| AWDUR: | Claire Incledon, Dirprwy Swyddog Monitro (dros dro) |

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Adolygu'r hunanasesiad blynyddol o weithgareddau'r Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol.

## 2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1. Adrodd ar unrhyw gasgliadau ac argymhellion sy'n deillio o'r hunanasesiad i'r CBC.

## 3. Y RHESWM AM Y PENDERFYNIAD

3.1. Mae'r Cylch Gorchwyl yn darparu y bydd yr is-bwyllgor yn cynnal hunanasesiad blynyddol o'i weithgareddau. Fel rhan o'r asesiad bydd yn ystyried a yw'n derbyn cefnogaeth ddigonol a phriodol i gyflawni ei rôl ac a yw ei gynllun gwaith blynyddol yn hylaw ai peidio.

## 4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

4.1. Dechreuodd yr is-bwyllgor ei waith ym mis Hydref 2024 ac yn y cyfnod byr hwnnw mae wedi adolygu'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol (RTP), y Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol a'r dogfennau cymorth polisi cysylltiedig i'w cymeradwyo gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig. Ochr yn ochr â'i waith ffurfiol, mae wedi derbyn diweddariadau a chyflwyniadau rheolaidd ar fentrau a chynigion trafnidiaeth cenedlaethol a rhanbarthol. Mae aelodaeth yr is-bwyllgor yn cynnwys deiliaid portffolio o bob awdurdod lleol rhanbarthol sydd â chyfrifoldeb am drafnidiaeth.

4.2 Hyd yma mae'r Aelodau wedi derbyn adroddiad chwarterol yn amlinellu perfformiad yr is-bwyllgor, gan gynnwys y cynnydd ar yr RTP a rhaglenni a datblygiadau cysylltiedig. Er bod yr adroddiadau hyn wedi bod yn eang, nid yw'r Aelodau wedi cael cyfle i asesu gweithgareddau'r is-bwyllgor yn benodol hyd yma.

4.3 Mae'r hunanasesiad wedi'i gynnal fel holiadur sy'n edrych ar waith yr is-bwyllgor yn ei gyfanrwydd, ac a yw'r Aelodau'n teimlo eu bod yn cael eu cefnogi o'r adeg y maent yn cael eu cyfethol i'r is-bwyllgor a thrwy gydol eu gwaith ar yr is-bwyllgor. Mae'r adborth o'r holiadur yn darparu darlun cadarnhaol cyffredinol (mae crynodeb o'r adborth yn Atodiad 1). Mae'r Aelodau wedi nodi eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n briodol a bod yr is-bwyllgor yn ymgymryd â'i rôl yn briodol, gyda'r Blaengynllun Gwaith, rhaglenni a rhannu gwybodaeth i gyd yn gweithio'n dda.

4.4 Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae llawer iawn o waith wedi'i wneud yn ymwneud â'r is-bwyllgor newydd hwn a'r aelodaeth i gefnogi cyflawni trafnidiaeth ranbarthol. Derbynnir bod

lle i wella bob amser ac mae'r holiadur hwn yn tynnu sylw at bwysigrwydd gweithio gyda'n gilydd i gyflawni ffyrdd gwell o weithio, ac i sicrhau cyflawni'r RTP.

## 5. GOBLYGIADAU ARIANNOL

5.1. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn deillio o'r adroddiad hwn.

## 6. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

6.1. Rhoddir sylw i'r goblygiadau cyfreithiol a llywodraethu yng nghorff yr adroddiad.

---

ATODIADAU:

Atodiad 1: Adborth ar yr holiadur hunanasesu.

---

YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

i. Swyddog Monitro:

ii. Swyddog Cyllid Statudol:

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau o safbwynt priodoldeb ariannol.